# Adolygiad Gwella Ansawdd

## Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

## Yr Adroddiad Canlyniadau

Mawrth 2022

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1]
Ym mlwyddyn academaidd 2021-22, roedd cwmpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan CCAUC i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 21 a 24 Mawrth 2022. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro Diane Meehan
- Dr Katie Thirlaway
- Mr Matthew Kitching (adolygwr sy'n fyfyriwr)

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth.
Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr.

Yn yr adroddiad hwn, ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r feirniadaeth drosfwaol gael ei mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd.

Gallwch weld y feirniadaeth drosfwaol ar gyfer yr adroddiad yma ar dudalen 3, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, cadarnhadau ac argymhellion.

Mae Adroddiad Technegol mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn.[3]
Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Technegol: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Cymru-Y-Drindod-Dewi-Sant

## Ynghylch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Crëwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y cyfeirir ati fel 'y Brifysgol' neu PCYDDS o hyn ymlaen) ar 18 Tachwedd 2010 drwy gyfuno Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin, o dan Siarter Frenhinol 1828 Prifysgol Cymru, Llanbedr. Yn 2013, daeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn rhan o PCYDDS; yna daeth Coleg Sir Gâr yn 2013-14 a Choleg Ceredigion yn 2014-15 yn bartneriaid sector deuol, gan greu Grŵp PCYDDS. Ers 2014, mae PCYDDS wedi bod yn dyfarnu ei dyfarniadau ei hun, yn hytrach na rhai Prifysgol Cymru. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi'i thrwyddedu gan Pearson i gynnig cymwysterau Cenedlaethol Uwch ac mae'n gweithio gyda nifer fechan o gyrff dyfarnu eraill, yn bennaf mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol. Cenhadaeth y Brifysgol yw 'Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau'. Mae ei gweledigaeth, ei gwerthoedd a'i blaenoriaethau strategol wedi eu disgrifio yn ei Chynllun Strategol 2017-2022. Y weledigaeth hon yw bod yn Brifysgol i Gymru, ac mae ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth y mae'r Brifysgol yn ei wneud.

Mae gan y Brifysgol nifer o gampysau - yn Birmingham, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Llundain ac Abertawe - a chan bob un ei hunaniaeth amlwg ei hun; mae ganddi ganolfannau dysgu yng Nghaerdydd hefyd. Trwy ei phartneriaid sector deuol a'i chyfleusterau allgymorth, mae hefyd yn cynnig darpariaeth addysg mewn amrywiaeth o leoliadau eraill yn Ne Cymru. Nid oes un 'prif' gampws, ac mae pob athrofa'n gweithio ar draws o leiaf ddau leoliad. I ddiogelu hunaniaeth unigryw pob campws, penodwyd tri Phrofost yn 2019: Llundain/Birmingham, Caerfyrddin/Llanbedr Pont Steffan, ac Abertawe/Caerdydd.

Ym mlwyddyn academaidd 2020-21, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 22,884 o fyfyrwyr cofrestredig, yr oedd 5,153 ohonynt yn astudio yn ei sefydliadau partner cydweithredol a'i cholegau cyfansoddol. O'r myfyrwyr hyn, mae 9,483 (42%) yn astudio ar gyfer eu gradd israddedig gyntaf, mae 8,075 (35%) yn astudio ar gyrsiau israddedig eraill, mae 4,272 (19%) yn astudio ar raglenni ôl-raddedig a addysgir ac mae 852 (4%) yn gwneud gwaith ymchwil ôl-raddedig. Ar y cyfan, mae 4,802 o fyfyrwyr yn astudio'n rhan amser.

Cynigir clystyrau o ddarpariaeth academaidd drwy bedair athrofa: yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau, yr Athrofa Dysgu Canol Dinas, yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd, ac Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru. Trwy'r fframwaith ar gyfer darpariaeth gydweithredol, mae gan yr athrofeydd gysylltiadau ffurfiol â cholegau cyfansoddol Grŵp PCYDDS a sefydliadau partner cydweithredol y Brifysgol.

Cafwyd yr Adolygiad Addysg Uwch blaenorol gan QAA yn 2015; roedd y Brifysgol yn bodloni disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau academaidd, ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, gwybodaeth a gwelliant; nododd yr adroddiad a gafwyd o ganlyniad i hwn bedwar argymhelliad, pedwar cadarnhad a thair nodwedd o arfer da. Ystyriwyd yr adroddiad ar y pwyllgorau perthnasol a chynhyrchwyd cynlluniau gweithredu, a chawsent hwythau eu tracio hyd eu cyflawni a'u cymeradwyo gan y Senedd. Mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar yr arferion da a nodwyd ac mae wedi cymryd camau gweithredu priodol mewn perthynas â'r argymhellion a'r cadarnhadau.

Ers yr Adolygiad Addysg Uwch, mae QAA wedi gwneud nifer o adolygiadau eraill o wahanol rannau o ddarpariaeth y Brifysgol: yn cynnwys yr Adolygiadau Addysg Drawswladol o'r ddarpariaeth gydweithredol yng Ngholeg IBAT yn Nulyn yn 2017 ac Academi Ryngwladol Malvern yn Kuala Lumpur yn 2019; adolygiad rhannol o'r ddarpariaeth yn Birmingham yn 2019; adolygiad datblygiadol o ddarpariaeth prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn 2021; ac adolygiad thematig o ddysgu digidol yn 2021 dan y teitl 'Adolygiad Gwella Ansawdd rhannol o Ganolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant'. Yn dilyn yr adolygiadau thematig a datblygiadol, cynhyrchwyd cynlluniau gweithredu a chawsent hwythau eu tracio hyd eu cyflawni, neu maent yn cael eu tracio ar hyn o bryd mewn perthynas â'r adolygiadau diweddaraf. Mewn perthynas â'r adolygiad rhannol o gampws Birmingham, cymerwyd camau gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y tîm adolygu.

# Y beirniadaethau am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd, ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

## Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o ganmoliaethau, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y dangosfwrdd data sy'n darparu amrywiaeth eang o ddata cywir, defnyddiol a hygyrch i'r staff, ac sy'n galluogi i'r Brifysgol fonitro ei pherfformiad yn gynhwysfawr ac yn effeithiol mewn perthynas â safonau ei dyfarniadau ac ansawdd profiad dysgu ei myfyrwyr.
- Yr Hwb Myfyrwyr sy'n darparu pwynt cyswllt a gwybodaeth electronig i'r myfyrwyr sy'n hygyrch ac yn gynhwysfawr, ac mae hyn yn cefnogi eu profiad dysgu'n effeithiol.
- Yr amrywiaeth eang o ddulliau digidol o hyfforddi, addysgu a chefnogi, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, a'r defnydd effeithiol a wneir ohonynt, sy'n parhau i gyfoethogi profiad y staff a'r myfyrwyr.
- Y gefnogaeth hygyrch a chynhwysfawr a ddarperir, yn arbennig gan y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth, i sefydliadau partner cydweithredol sy'n eu helpu'n effeithiol i ddeall a gweithredu gofynion PCYDDS.
- Y dull cydlynol ac effeithiol o wella cyfleoedd i'r myfyrwyr symud ymlaen o'i phartneriaid cydweithredol a rhyngddynt.

## Y cadarnhadau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd un cadarnhad, sydd wedi ei grynhoi isod.

- Y gwaith y mae'r Coleg Doethurol yn ei wneud i sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn gymaradwy ar draws yr amrywiaeth o gampysau a dulliau astudio.

## Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn gwneud nifer o argymhellion.

- Datblygu system gadarn sy'n sicrhau bod pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig sy'n gwneud neu'n cefnogi gwaith addysgu, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn derbyn hyfforddiant priodol.
- Datblygu dull strategol cydlynol o wella canlyniadau pob rhaglen o ran cyflogadwyedd mewn swyddi proffesiynol sydd angen lefel uchel o sgiliau.
- Cynnwys myfyrwyr sefydliadau partner cydweithredol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau 'addysgu allan' pan fo cyrsiau'n cael eu cau.

## Rhagor o wybodaeth

Mae Adroddiad Technegol mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.

Mae'r adolygiad hwn a'i ganfyddiadau'n ymwneud â'r darparwr cyfan, ac nid yw'n rhoi gwybodaeth am raglenni astudio neu feysydd astudio unigol. I gael rhagor o wybodaeth am y rheiny, cysylltwch â'r darparwr neu ewch i'w wefan.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am QAA a'r Adolygiad Gwella Ansawdd ar wefan QAA.

**QAA2666 - R12307 - Mehefin 2022**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk